Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG50063**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Adolygu'r Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru

Gorffennaf 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron
Digital ISBN 978-1-83625-335-8

## Trosolwg

Nod y darpariaethau rheoli rhywogaethau yw sicrhau bod tirfeddianwyr, dan amgylchiadau priodol, yn gweithredu i ymdrin â rhywogaethau estron goresgynnol a rhywogaethau cynhenid a arferai breswylio yma, neu’n caniatáu i eraill fynd ar dir i gynnal y gweithrediadau hynny er mwyn atal y rhywogaethau hynny rhag ymsefydlu neu ledaenu. Gall cael mynd ar dir yn gynnar i reoli rhywogaeth estron oresgynnol sydd newydd gyrraedd ac sy'n achosi niwed, neu sy'n debygol o achosi niwed, fod yn bwysig i helpu i atal ei lledaeniad cyn iddi ymsefydlu a dod yn anoddach ac yn ddrytach i'w rheoli.

Pwrpas y Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru yw nodi sut y dylai'r darpariaethau ar gyfer cytundebau rheoli rhywogaethau a gorchmynion rheoli rhywogaethau a gynhwysir yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 gael eu cymhwyso gan awdurdodau amgylcheddol yng Nghymru. Fe'i cyhoeddwyd gyntaf yn 2017.

Mae'r newidiadau'n cynnwys alinio peth o’r testun o fewn y cod yn agosach i'r gofynion deddfwriaethol, diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a gofynion cyfreithiol lle mae deddfwriaeth newydd wedi'i chyflwyno ers 2017, a newid trefn rhai o'r adrannau yn y cod. Gwnaed newidiadau hefyd fel bod y termau 'rhaid' a 'dylai' yn cael eu defnyddio mewn ffordd fwy cywir a chyson trwy’r ddogfen.

Mae’r ddogfen hon yn crynhoi’r ymatebion i’n hymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i'r cod.

### Camau gweithredu gofynnol

Dogfen er gwybodaeth yn unig yw hon.

### Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

### Manylion cyswllt

Rhagor o wybodaeth:
Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: plant.health@gov.wales

### Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac mae modd eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.
Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru: dogfen ymgynghori (llyw.cymru)

# Cynnwys

Cyflwyniad .... 4
Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad .... 4
Ymatebion i'r ymgynghoriad .... 5
Cwestiwn 1. A ydych yn cytuno bod angen diweddaru'r Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru ("y Cod")? .... 5
Cwestiwn 2. A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig sydd wedi'u gwneud i'r Cod? .... 5
Cwestiwn 3. A ydych yn anghytuno â'r newidiadau arfaethedig sydd wedi'u gwneud i'r Cod? A oes unrhyw newidiadau penodol yr ydych yn anghytuno â nhw a pham? .... 6
Cwestiwn 4. A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer newidiadau eraill y gellid eu gwneud? Nodwch nhw yma ynghyd â'ch rhesymau dros awgrymu'r newidiadau hynny. .... 9
Ymateb y Llywodraeth a'r camau nesaf .... 10
A - Rhestr o'r ymatebwyr: .... 11

## Cyflwyniad

Cyn cynnal yr ymgynghoriad hwn, fe wnaeth Llywodraeth Cymru adolygu'r ddogfen a chysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru am eu mewnbwn cychwynnol i wneud diwygiadau arfaethedig i'r cod. Mae'r newidiadau'n cynnwys alinio peth o'r testun o fewn y cod yn agosach i'r gofynion deddfwriaethol, diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a gofynion cyfreithiol lle mae deddfwriaeth newydd wedi'i chyflwyno ers 2017 a newid trefn rhai o'r adrannau yn y cod. Gwnaed newidiadau hefyd fel bod y termau 'rhaid' a 'dylai' yn cael eu defnyddio mewn ffordd fwy cywir a chyson trwy’r ddogfen. Mae hyn yn dilyn adroddiad gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Chyfreithiol (CLAC) gynt a ddywedodd y gallai'r cod fod yn gliriach i Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru o ran ei ddefnydd o'r geiriau 'rhaid' a 'dylai'.

Lansiwyd ymgynghoriad gyda phedwar cwestiwn ar wefan Llywodraeth Cymru ar 29 Ionawr 2024, a daeth i ben ar 21 Ebrill 2024. Roedd yn gofyn am farn pobl ynghylch a oedd angen diweddaru'r cod, a oedden nhw’n cytuno â'r newidiadau arfaethedig, a oedden nhw'n anghytuno ag unrhyw newidiadau penodol, ac a oedd unrhyw awgrymiadau ynghylch newidiadau ychwanegol y gellid eu gwneud.

## Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Daeth 9 ymateb i law i’r ymgynghoriad. Nid oedd rhai ymatebion yn cynnwys ateb i bob cwestiwn.

Roedd y ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac roedd unigolion yn gallu ymateb yn eu dewis iaith. Roedd yr holl ymatebion a gafwyd yn Saesneg.

Roedd ymatebwyr yn gallu ymateb gan ddefnyddio tudalen we ymgynghori Llywodraeth Cymru neu lawrlwytho ffurflen ymateb a'i chyflwyno i flwch post electronig dynodedig. Mae trosolwg o'r rhaniad yn yr ymatebion hyn wedi'i gynnwys isod.

| | |
|---|---|
| Ymatebion a gyflwynwyd ar-lein | 6 |
| Ymatebion a gyflwynwyd drwy e-bost i plant.health@gov.wales | 3 |

Mae dadansoddiad o'r math o ymatebydd ar gael isod:

| | |
|---|---|
| Yn gysylltiedig â sefydliad | 4 |
| Heb gysylltiad â sefydliad | 5 |

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

## Cwestiwn 1. A ydych yn cytuno bod angen diweddaru'r Cod Ymarfer ar gyfer Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru ("y Cod")?

| C1 | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ydw** | **Nac ydw** | Heb ateb |
| Nifer yr ymatebion | 7 | 0 | 2 |
| % nifer yr ymatebion | 78% | 0% | 22% |

Roedd y mwyafrif helaeth o'r 9 ymatebydd (78%) yn cytuno bod angen diweddaru'r cod. Ni wnaeth dau (22%) ateb y cwestiwn hwn. Roedd hi'n ymddangos bod un o'r rhai na atebodd yn darparu ymatebion mewn perthynas â defnyddio maglau yng Nghymru, nad yw'n gysylltiedig â'r Cod Ymarfer ar gyfer Rhywogaethau Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yng Nghymru. Mae'r Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru), a ddaeth i rym ar 17 Hydref 2023, yn gwahardd defnyddio maglau yng Nghymru a thynnwyd y Cod Ymarfer cysylltiedig ar ddefnyddio maglau i reoli llwynogod yn ôl ar y dyddiad hwnnw.

O'r rhai a ymatebodd 'ydw' i'r cwestiwn hwn, ni roddodd tri ohonynt reswm penodol dros hynny. Pan ddarparwyd rhesymau dros ddiweddaru'r cod, roedd yr ymatebion yn amrywio. Dywedodd dau ymateb y dylid diweddaru'r cod i sicrhau cywirdeb ac eglurder. Roedd ymateb arall yn awgrymu bod angen diweddaru'r cod er mwyn: alinio'r testun yn agosach i'r gofynion deddfwriaethol; diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a gofynion cyfreithiol; ac fel y gellir defnyddio'r termau 'rhaid' a 'dylai' mewn ffordd fwy cywir a chyson trwy'r ddogfen.

**<u>Ymatebion enghreifftiol</u>**
"*Ydw - mae'r iaith yn llawer cliriach nawr*". Unigolyn.
"*Mae BASC yn credu bod manteision i ddiweddaru'r Cod i'w wneud yn gliriach ac yn fwy cywir*." Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain.
"*Mae'r Gynghrair Cefn Gwlad yn cydnabod gwerth diweddaru'r cod er mwyn sicrhau cywirdeb ac eglurder*." Y Gynghrair Cefn Gwlad.

## Cwestiwn 2. A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig sydd wedi'u gwneud i'r Cod?

| C2 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cytuno** | **Cytuno'n rhannol** | **Anghytuno** | **Heb ateb** |
| Nifer yr ymatebion | 1 | 6 | 0 | 2 |
| % yr ymatebion | 11% | 67% | 0% | 22% |

Atebwyd y cwestiwn hwn gan 7 o'r 9 o ymatebwyr. Nid oedd yr un o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r holl newidiadau arfaethedig. Roedd un cytuno gyda'r newidiadau gan eu bod i gyd yn gwneud y cod yn haws i'w weithredu. Roedd chwech (86%) o'r rhai a ymatebodd yn cytuno â'r newidiadau a wnaed i ryw raddau.

O'r rhai a ddywedodd eu bod yn cytuno'n rhannol â'r newidiadau arfaethedig, roedd eu hymateb yn amrywio. Credai dau ymatebydd ei bod yn ymddangos bod rhai o'r newidiadau yn mynd y tu hwnt i'r fframwaith deddfwriaethol presennol ac felly'n ehangu cwmpas y cod. Roedd un arall o'r farn bod y cod newydd arfaethedig yn welliant ar y fersiwn flaenorol, ond bod ganddo bryderon a amlinellir yn ei ymateb i gwestiwn 3.

**Ymatebion enghreifftiol**

*"Rydym yn croesawu, yn arbennig, y canlynol:*

1. *Er nad yw'r Cod ar gyfer rhywogaethau sydd eisoes yn gyffredin, mae'n parhau i roi eithriad y gellir defnyddio'r gyfundrefn hon lle ceir rhaglen ddileu a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru/CNC (e.e. prosiect Rhododendron ponticum yng Nghoedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru).*
2. *Yn ogystal â bod yn gymwys lle mae INNS yn debygol o gael effaith niweidiol ar safle dynodedig, bydd hyn yn cael ei ymestyn i le mae rhywogaeth estron oresgynnol eang yn debygol o gael effaith niweidiol mewn Rhwydwaith Ecolegol Cydnerth. Fodd bynnag, gweler ein sylwadau isod mewn perthynas â'r amgylchedd morol.*
3. *Nid oes gofyniad bellach bod yn rhaid i gamau "amharu fawr ddim ar weithgareddau busnes cyfreithlon". Mae'n iawn nad yw'r risg o ganiatáu i INNS ledaenu (a pheryglu niwed i les y cyhoedd) yn cael ei heffeithio gan gymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i fusnes unigol wneud dim newid i'w weithrediadau.*
4. *Mae'n nodi'n gliriach y gall CNC ganiatáu i eraill gael mynediad i dir i wneud gwaith rheoli.*
5. *Nid oes rhaid i CNC hysbysu Gweinidogion cyn gwneud gorchymyn rheoli rhywogaeth. Credwn y bydd hyn yn lleihau'r risg o oedi wrth fynd i'r afael ag INNS problemus pan mae amser yn y fantol"* **RSPB Cymru.**

**"***Ar y cyfan, rydyn ni'n credu bod y Cod yn welliant ar y fersiwn flaenorol gan ei fod yn haws ei ddilyn ac mae'n fwy clir i'r darllenwyr a'r busnesau hynny y mae'r cod yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, mae gennym bryderon ynghylch rhai agweddau y byddwn yn ymdrin â nhw yn y cwestiwn nesaf***."** **NFU Cymru.**

## Cwestiwn 3. A ydych yn anghytuno â'r newidiadau arfaethedig sydd wedi'u gwneud i'r Cod? A oes unrhyw newidiadau penodol yr ydych yn anghytuno â nhw a pham?

| C3 | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ydw/Oes** | **Nac ydw/Nac oes** | **Heb ateb** |
| Nifer yr ymatebion | 6 | 1 | 2 |
| % yr ymatebion | 67% | 11% | 22% |

Atebwyd y cwestiwn hwn gan 7 o'r 9 ymatebwyr. Roedd chwech (86%) yn anghytuno â rhai o'r newidiadau a wnaed i'r cod gan fynd ymlaen i esbonio'n benodol yr hyn roedden nhw'n anghytuno ag e. Nid oedd un o'r ymatebwyr yn anghytuno ag unrhyw un o'r newidiadau a wnaed.

Roedd yr ymatebydd nad oedd yn anghytuno ag unrhyw un o'r newidiadau yn honni bod y newidiadau'n ymddangos yn deg ac yn hawdd i'w deall. Cyflwynwyd ystod eang o feysydd a oedd yn destun anghytuno gan rai nad oeddent yn cytuno â'r holl newidiadau a wnaed i'r cod, heb unrhyw thema gyffredin rhwng yr amrywiol ymatebwyr. Roedd dau ymatebydd o'r farn bod y cynnig i ddileu testun yn gwneud y Cod yn llai eglur, ac yn gofyn am adfer rhywfaint o destun penodol. Roedd dau ymatebydd yn cwestiynu cynnwys Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth a'r diffiniad ohonynt yn y rhestr o amgylchiadau lle gallai fod yn briodol gwneud cytundeb neu orchymyn rheoli rhywogaethau mewn perthynas â rhywogaethau eang eu gwasgariad.

Roedd un arall yn poeni bod y diffiniadau ym mharagraff 23 yn eithrio cynefinoedd morol y tu allan i'r rhwydwaith ardaloedd gwarchodedig. Roedd o'r farn bod porthladdoedd, harbwrs a marinas yn peri risg arbennig o uchel fel llwybr INNS, ac felly mae'n ymddangos na fyddai'r cod yn berthnasol i'r rhai y tu allan i'r rhwydwaith ACA/AGA/MPA, yn enwedig mewn rhannau o Dde Cymru. Mae hyn yn rhywbeth y mae'r ymatebwr eisiau ei weld yn cael sylw.

**<u>Ymatebion enghreifftiol</u>**

*"Mae sawl newid lle mae dileu'r testun blaenorol yn gadael datganiad heb esboniad ac felly'n aneglur: -*
*e.e.: T.20 "3.4 Yr hyn y mae'n rhaid i gytundeb rheoli rhywogaeth ei gynnwys:*
*53. c) unrhyw weithrediadau rheoli rhywogaeth y mae'n rhaid peidio â'u cynnal. (Testun wedi'i ddileu – er enghraifft, gwahardd torri rhywogaeth planhigyn estron oresgynnol yn ystod cyfnod penodol)"*
*Gall amseru camau rheoli fod yn bwysig iawn i gael gwared ar y rhywogaeth darged a chadwraeth y rhai sy'n weddill. Dyma'r unig le yn y ddogfen lle mae hyn yn cael ei ddatgan, a dylid ei gadwer budd ysgutorion yn y dyfodol.*
*ac e.e.: Tud 42 "4. Anifeiliaid a restrir yn Rhan 1B o Atodlen 9 (fel y'u rhestrwyd ym mis Medi 2023)"*
*Roedd rhaid i mi fynd ar google i weld beth mae Rhan 1B yn cyfeirio ato. Roedd nodi bod hyn yn cyfeirio at 'Anifeiliaid nad ydynt yn bresennol mwyach fel arfer' yn ddefnyddiol ac ni ddylid ei ddileu.*
*Nod gweithredu Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau yw gweithio gyda thirfeddianwyr yn wirfoddol.*
*Tud 49 Mae'n wych bod y diweddariad hwn yn llawer cliriach ond mae ychydig gormod o esboniad wedi'i dorri felly nid yw mor hawdd i'w ddarllen* **Unigolyn.**
*"Mae gennym ni'r pryderon canlynol:*
*1. Mae cwmpas y Cod (paragraff 12) wedi dod yn llai eglur nag o'r blaen, ac rydym yn pryderu bod (a) yr elfen bwysicaf bellach yn is-gymal yn 12(2), (b) nad yw'n cynnwys rhywogaethau sy'n gynhenid i ran o Brydain Fawr, ond nad ydynt efallai'n gynhenid i ran o Gymru, sef ynys yn fwyaf pwysig (e.e. draenog), ac (c) nad yw ond yn gymwys i blanhigion yn Atodlen 9 Rhan 2 neu yn y rhestr o rywogaethau o bryder arbennig, ac nid yn ehangach os yw ei phresenoldeb newydd ar safle yn datblygu i*

*fod yn oresgynnol.*
*Rydym yn argymell bod 12(2) yn cael ei ad-drefnu fel hyn:*
*Gall cytundeb rheoli rhywogaeth neu orchymyn rheoli rhywogaeth ymwneud â:*
*1. anifail [neu blanhigyn] sydd o rywogaeth nad yw ei thiriogaeth naturiol yn cynnwys unrhyw ran o Brydain Fawr ac sydd wedi cael ei chyflwyno i Brydain Fawr neu sy'n bresennol ym Mhrydain Fawr oherwydd gweithgarwch dynol arall, neu*
*2. rhywogaeth anifail neu blanhigyn sydd wedi'i chynnwys yn rhestr y rhywogaethau o bryder arbennig, neu*
*3. rhywogaeth anifail sydd wedi'i rhestru yn Rhan 1 o Atodlen 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, neu,*
*4. rhywogaeth planhigyn sydd wedi'i rhestru yn Rhan 2 o Atodlen 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 neu,*
*5. rhywogaeth anifail sydd wedi'i rhestru yn Rhan 1B o Atodlen 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 neu sy'n rhywogaeth y mae ei thiriogaeth naturiol yn cynnwys Prydain Fawr i gyd, neu unrhyw ran ohoni, ac nad yw hi mwyach yn preswylio fel arfer ym Mhrydain Fawr nac yn ymwelydd rheolaidd â Phrydain Fawr. Nad yw bellach yn bresennol fel arfer ym Mhrydain Fawr.*
*Ac ychwanegu:*
*anifail neu blanhigyn o rywogaeth sy'n gynhenid i ran o Brydain ond nad yw ei thiriogaeth naturiol yn cynnwys rhan ddiffiniedig o Gymru, fel ynys.*
*2. Ym mharagraff 23, rydym wedi cymryd bod y Rhwydwaith Ecolegol Cydnerth yn cyfateb i'r Rhwydweithiau Ecolegol Blaenoriaeth y Tir ar Fap Data Cymru, a gofynnwn i'r Cod egluro hyn. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod y diffiniadau hyn yn eithrio cynefinoedd morol y tu allan i'r rhwydwaith ardaloedd gwarchodedig. Mae porthladdoedd, harbwrs a marinas yn peri risg arbennig o uchel fel llwybr INNS, ac felly mae'n ymddangos na fyddai'r Cod yn gymwys i'r rhai y tu allan i'r rhwydwaith ACA/AGA/MPA, yn enwedig mewn rhannau o Dde Cymru. Ar ben hynny, nid yw nifer o gytrefi adar môr Cymru - fel Ynys Denny ac Ynys Badrig - wedi'u dynodi'n SoDdGA. Mae'r newidiadau arfaethedig yn y Cod yn gwanhau'r amddiffyniad ar gyfer y safleoedd hyn oherwydd na fyddai modd defnyddio'r gyfundrefn.*
*3. Mae dileu'r angen i gynnwys mesurau bioddiogelwch arfer gorau mewn unrhyw raglen reoli (paragraffau 44 a 53) yn gam yn ôl, ac nid oes esboniad na chyfiawnhad dros y newid hwn. Ar hyn o bryd mae RSPB Cymru yn cyflwyno rhaglen fawr (o dan y Gronfa Rhwydweithiau Natur) i wella mesurau bioddiogelwch ar SoDdGA ynysoedd, a ddylai fod yn ddyletswydd ar y llywodraeth. Deallir yn eang mai bioddiogelwch da yw'r cam cyntaf mewn dull haenog o fynd i'r afael ag INNS, ac rydym am weld y gofyniad hwnnw'n cael ei gadw yn y Cod.*
*4. Mae'r Afanc a Baedd Gwyllt wedi'u rhestru fel rhywogaethau cynhenid a arferai breswylio a allai fod yn ddarostyngedig i'r un drefn reoli os cânt eu rhyddhau heb drwydded. Rydym yn llwyr gefnogi'r angen am system reoleiddiedig ar gyfer ailsefydlu rhywogaethau cynhenid, a'r modd i ymateb i broblemau lle mae'r rhain yn digwydd. Fodd bynnag, mae gennym bryderon bod y prawf ar gyfer cymhwyso'r drefn reoli yn yr achosion hyn wedi cael ei wanhau. Yn flaenorol, roedd yn rhaid i Lywodraeth Cymru/CNC "gael tystiolaeth" o effaith andwyol sylweddol, ond nawr mae'n rhaid iddynt "fod yn fodlon" mai dyma'r achos. Nid yw hyn yn ennyn hyder ynghylch gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, ac rydym yn poeni am ganlyniadau anfwriadol os nad oes profion ychwanegol y mae'n rhaid eu pasio mwyach o'i gymharu ag INNS.*
*5. Mae'r ymgynghoriad yn nodi bod y 'New Zealand flatworm', y 'Pumpkinseed' a'r 'Giant Salvinia' i fod i gael eu dileu o Atodlen 9 yng Nghymru, ond ni ddarperir*

*manylion ynghylch pryd y bydd hyn yn digwydd nac a fydd unrhyw ymgynghoriad ar y newid hwn.*
*6. Dywed y Cod y dylai camau cydlynu ddilyn unrhyw brotocolau ymateb cyflym, ac rydym yn croesawu hyn, ond nid yw'n ymddangos bod ganddo ddatganiad ynghylch pwy fydd â'r cyfrifoldeb diofyn yn absenoldeb unrhyw brotocolau o'r fath."* **RSPB Cymru.**

## Cwestiwn 4. A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer newidiadau eraill y gellid eu gwneud? Nodwch nhw yma ynghyd â'ch rhesymau dros awgrymu'r newidiadau hynny.

| C4 | | | |
|---|---|---|---|
| | **Oes** | **Nac oes** | **Heb ateb** |
| Nifer yr ymatebion | 4 | 3 | 2 |
| % yr ymatebion | 44% | 33% | 22% |

Fe wnaeth 7 o'r 9 o ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn. Atebodd tri o'r saith y cwestiwn hwn trwy gyfeirio at eu hatebion i gwestiwn 3, felly mae'r rhain wedi'u cofnodi yn y tabl uchod fel ateb 'nac ydw/nac oes'.

O'r pedwar a atebodd y cwestiwn drwy roi awgrymiadau am newidiadau ychwanegol y gellid eu gwneud, roedd yr atebion yn amrywio'n fawr. Nododd un ymatebydd wall sillafu ar dudalen 35 yn y Saesneg sy'n ymddangos fel pe bai wedi'i achosi gan awtogywiro. Awgrymodd un arall fod nifer o wallau sillafu a fformatio yn y rhywogaethau a restrir yn yr atodiad. Gwnaeth yr un ymatebydd bwyntiau ychwanegol, ond roedd y rhain i gyd y tu allan i gwmpas y cod. Honnodd un arall nad oedd yn ddigon clir yn y cod, pe bai anifail neu blanhigyn yn cyrraedd eiddo tirfeddiannwr heb i'r tirfeddiannwr chwarae unrhyw ran yn hynny, na fyddai'r perchennog tir yn cael ei ddal yn gyfrifol am gostau rheoli pe bai cytundeb neu orchymyn rheoli rhywogaethau yn cael ei weithredu.

Cafwyd ymateb arall a oedd yn crybwyll llawer o wallau sillafu, fformatio a gramadegol. Roedd yr ymatebydd hwn hefyd o'r farn y byddai diffiniad o'r Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth (RENs) yn fuddiol yn y termau. Yn ogystal â hyn, o safbwynt rhywogaethau sydd wedi lledaenu'n eang, awgrymwyd y dylai darpariaethau rheoli rhywogaethau hefyd gynnwys eu heffaith ar 'rywogaethau a warchodir a chynefinoedd naturiol'.

**<u>Ymatebion enghreifftiol</u>**

"*Nid yw NFU Cymru yn credu bod digon o gydnabyddiaeth yn y Cod bod rhywogaethau, boed yn blanhigyn, neu'n anifail, wedi symud o dir lle cawsant eu cyflwyno gyntaf. Mae angen gwneud yn llawer cliriach nad yw deiliad neu berchennog y tir y mae'r rhywogaeth wedi symud iddo yn gyfrifol am unrhyw gostau rheoli a allai fod yn angenrheidiol ac mewn gwirionedd gallant gael yr awdurdodau perthnasol i wneud a thalu am unrhyw waith rheoli gofynnol, gyda'u cytundeb. Rhaid i hyn fod yn fwy eglur*." **NFU Cymru.**

“*Mae'r newidiadau sydd wedi'u gwneud yn gyffredinol yn gwneud y Cod yn fwy darllenadwy ac yn egluro mewn sawl achos y newidiadau rhwng dylai, rhaid a gall yn y datganiadau gweithredu priodol*.” **Unigolyn.**

## Ymateb y Llywodraeth a'r camau nesaf

Rydym yn croesawu'r holl ymatebion i'n hymgynghoriad ac yn ddiolchgar i'r bobl a'r sefydliadau sydd wedi rhoi eu sylwadau. Cawsom amrywiaeth o safbwyntiau cyferbyniol gan rai sy'n cynnig y dylai canllawiau'r cod roi mwy o ystyriaeth i fuddiannau tirfeddianwyr a'r rhai sy'n cynnig y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i fioamrywiaeth. Rydym wedi ystyried pob pwynt unigol a godwyd yng ngoleuni'r gofynion a nodir yn y ddeddfwriaeth ac yn ysbryd yr argymhellion a nodwyd yn wreiddiol gan Gomisiwn y Gyfraith yn eu prosiect diwygio cyfraith bywyd gwyllt. Byddwn yn bwrw ati i gynhyrchu fersiwn derfynol o'r cod i'w gyhoeddi.

## A - Rhestr o'r ymatebwyr:

Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain
NFU Cymru
RSPB Cymru
Y Gynghrair Cefn Gwlad
5 unigolyn